# ATODLEN 2

# EITHRIADAU I ADRAN 7

## RHAN 2

## TENANTIAETHAU A THRWYDDEDAU O FEWN ADRAN 7 NAD YDYNT YN GONTRACTAU MEDDIANNAETH ONI RODDIR HYSBYSIAD

*Y rheol*

3 (1) Nid yw tenantiaeth neu drwydded sydd o fewn adran 7, ond y mae is-baragraff (2) yn gymwys iddi, yn gontract meddiannaeth oni bai y bodlonir yr amod hysbysu.

(2) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i denantiaeth neu drwydded—

(a) sy'n rhoi'r hawl i feddiannu annedd at ddibenion gwyliau,

(b) sy'n ymwneud â darparu llety mewn sefydliad gofal (gweler paragraff 4),

(c) sy'n drefniant hwylus dros dro (gweler paragraff 5), neu

(d) y mae'r eithriad llety a rennir yn gymwys iddi (gweler paragraff 6).

(3) Mae'r amod hysbysu wedi ei fodloni os yw'r landlord, cyn neu ar adeg gwneud y denantiaeth neu'r drwydded, yn rhoi hysbysiad i'r person y'i gwneir ag ef yn datgan y bydd yn gontract meddiannaeth.